

<b>ENW'R PWYLLGOR</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>DYDDIAD Y CYFARFOD</b>	30 Mehefin 2022
<b>TEITL YR EITEM</b>	ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU
<b>AMCAN</b>	Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 4 Archwilio Cymru ac adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

## 1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 4 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.
- 1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y pwyllgor hwn ar y 14eg o Hydref 2021. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn ar y 30ain o Fehefin 2022.